4.142

# TAN DDAW'R DEWR YN OL.

(Welsh words for "'Till the Boys Come Home.")

By the Rev. O. T. Davies, Llanfyllin.

Galwyd hwy o ben y mynydd,
  Galwyd hwy o'r dyffryn tlws:
Cafodd Prydain hwynt yn barod
  Pan ddaeth gelyn at y drws.
Peidiwch wylo dagrau hiraeth
  Pan bo'r dewr yn myn'd i'r gad:
Byddwch lawen, na phryderwch—
  Cenwch gerddi yr hen wlad.

Cydgan:
  Cadwn aelwyd gryno,
  Tra bo'r dewr yn brwydro,
  Er eu bod ymhell o'i gwlad
  Hwy gofiant hi.
  Y mae nefol wenau
  Yn addurno'r llwybrau;
  Taflwn oleu dros y don
  Tan ddaw'r dewr yn ol.

O'r Cyfandir daeth yr alwad,
  'Roedd y gelyn erch gerllaw;
Clywsom ochain trefi Belgium,
  Rhoisom galon gyda'n llaw.
Ni wna Prydain fyth ymostwng
  O dan draed yr Ellmyn hy';
Cyn ca'r estron lu deyrnasu
  Rhaid gwneud bedd i Gymru gu.

---

Cyhoeddedig gan yr Awdur, Rhagfyr, 1915.
PRIS CEINIOG. Yr elw at yr Ysbytty Cymreig.

X 205 218643